# CYNGOR GWYNEDD

## ADRODDIAD I GYFARFOD CABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 18, Rhagfyr 2018 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Dilwyn Morgan |
| **Swyddog Cyswllt:** | Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | 01286 679468 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Blynyddol y Panel Strategol Diogelu 2017/18 |

### 1. CYFLWYNIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni gan y Panel Strategol Diogelu yn ystod y flwyddyn 2017/18. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi ei gyflawni yn erbyn addewidion Diogelu'r Cynllun Strategol.

1.2 Mae gofyn i'r Cyfarwyddwr Statudol i adrodd yn gyson a rheolaidd i aelodau ar faterion diogelu.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1 Gofynnir i'r Cabinet dderbyn yr adroddiad gerbron ar waith y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion.

2.2 Gofynnir i'r Cabinet dderbyn addasiadau i Gylch Gorchwyl y Panel.

## 3. RHESYMAU DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

3.1 Credir i'r adroddiad grynhoi gwaith y Panel Strategol Plant ac Oedolion yn gywir a theg; mae hefyd yn hanfodol bod aelodau'r Cabinet yn ymwybodol o waith y Panel ar ddiogelu ac yn gallu bodloni eu hunain bod y Panel wedi ymgymryd â'r gwaith sydd ei hangen yn drylwyr a chydwybodol.

3.2 Oherwydd bod y Panel wedi ehangu ei ffocws i gynnwys materion Diogelwch ehangach megis Trais yn y Cartref a materion gwrth derfysgaeth, mae Cylch Gorchwyl y Panel wedi ei addasu er mwyn adlewyrchu hyn. Mae'r Cylch Gorchwyl yn ogystal yn amlygu cyfrifoldeb y Panel i fonitro ac i herio perfformiad sydd yn ymwneud a'r maes Diogelu.

## 8. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

8.1. Dim i'w nodi.

## 9. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

### 9.1. Barn y Swyddogion Statudol:

**i. Y Swyddog Monitro:**

ii. Fel aelod o'r Panel rwy'n croesawu'r adroddiad sydd yn grynodeb priodol o waith y corff. Mae'n gyfrwng i roi sicrwydd i'r Cabinet ynglŷn â'r maes pwysig yma. Mae'r ychwanegiadau i'r cylch gorchwyl yn rhesymegol ac yn adlewyrchiad o'r newidiadau cyson sydd yn digwydd mewn cyd-destun statudol a chymdeithasol yn ganolog yn maes diogelu corfforaethol.

**ii. Y Pennaeth Cyllid:**

Rwyf wedi derbyn cadarnhad gan yr awdur na fyddai'r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiadau ariannol newydd, ac felly nid oes gennyf wrthwynebiad i'r argymhellion

### 9.2 Barn yr Aelod Lleol:

9.2.1 Dim yn fater lleol

### 9.3. Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:

9.3.1 Dim i'w nodi

---

**Atodiadau:**

**Atodiad 1** Adroddiad Blynyddol y Panel Strategol Diogelu 2017/18
**Atodiad 2** Cylch Gorchwyl y Panel Strategol Diogelu